| | | |
|---|---|---|
| | ymateb lleol i'r argyfwng hinsawdd byd-eang. Yn neilltuol bydd yn anelu i:<br><br>• Sefydlu a chynnull fforwm gyda thirfeddianwyr mawr yn y sir i ddatblygu ymateb lleol i gwrdd ag anghenion bwyd pobl Sir Fynwy mewn ffordd gynaliadwy a datblygu amaethyddiaeth fel y caiff cyfran fwy o'r bwyd a gaiff ei brynu yn y sir ei gynhyrchu'n lleol;<br>• Gweithio gydag archfarchnadoedd a manwerthwyr priodol eraill i ddechrau ar ymgyrch o addysg defnyddwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r difrod amaethyddol a wnaed drwy gludo cynnyrch bwyd ar draws y byd mewn awyren i'w werthu mewn siopau yn y Deyrnas Unedig;<br>• Er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu newydd, mae'n rhaid i bob cynllun gynnwys defnydd y swm mwyaf posibl o ddyfeisiau arbed ynni, tebyg i insiwleiddiad a phaneli solar, a bod yn rhaid i feysydd parcio cyhoeddus yn gysylltiedig gyda datblygiadau masnachol barhau mannau gwefru ceir trydan;<br>• Cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig sy'n gwireddu'r cynigion i gefnogi a datblygu diwydiant a masnach lleol a gostwng yr angen am gymudo allan o'r sir;<br>• Cynnal archwiliad sgiliau lleol a chydweithio gyda Choleg Gwent a darparwyr sgiliau eraill fel y gellir hyfforddi pobl i ateb yr anghenion a ddynodwyd yn yr economi lleol;<br>• Hyrwyddo cysyniad lleoliaeth i ddiwallu anghenion y gymuned a'r economi lleol, yn cynnwys adeiladu tai cymdeithasol a fforddiadwy sydd eisoes yn diwallu'r anghenion a ddynodwyd ar gyfer pobl leol. | |
| **7.** | **Cwestiynau Aelodau::** | |
| **7.1.** | **Gan y Cynghorydd Sir M. Groucutt i'r Cynghorydd Sir R. John Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a MonLife**<br><br>A all aelod cabinet Plant a Phobl Ifanc hysbysu'r cyngor pa gamau a gymerir i sicrhau'r ymgysylltu mwyaf posibl ar bobl ifanc yn y broses ddemocrataidd ac annog pobl ifanc 16 a 17 oed sydd newydd gael y bleidlais i ddefnyddio eu pleidlais yn etholiadau Cymru yn y dyfodol? | |
| **8.** | **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020** | 61 - 66 |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

